**Prifysgol Bangor**

**Datganiad Blynyddol ar Uniondeb**

**Ymchwil Hydref 2022**

**Cefndir**

1. Mae Uniondeb Ymchwil yn egwyddor arweiniol ar gyfer holl weithgareddau Prifysgol Bangor (“Y Brifysgol”), fel y nodir yn Nogfen Strategaeth 2030 y Brifysgol: *‘Rydym yn gweithredu gyda gonestrwydd a thryloywder a byddwn yn ymdrechu i gydweithredu ym mhopeth a wnawn. Byddwn yn hwyluso twf deallusol trwy ryddid academaidd, mynegiant creadigol, cyfathrebu gwirionedd a gwybodaeth, a datblygiad cymdeithasol a moesol.’* Mae’n faes ffocws strategol allweddol i'r Brifysgol, ac rydym yn ymroddedig i gefnogi'r lefelau uchaf o uniondeb a rhagoriaeth ymchwil. Mae'r Brifysgol yn ymrwymo'n llwyr i gynnal egwyddorion ac arferion Concordat Prifysgolion y Deyrnas Unedig i Gefnogi Uniondeb Ymchwil (“Y Concordat”)

2. Dyma ail Ddatganiad Blynyddol y Brifysgol ar Uniondeb Ymchwil (“Y Datganiad Blynyddol”). Mae'n cwmpasu'r cyfnod o 1 Awst 2021 hyd at 31 Gorffennaf 2022. Yn unol ag argymhelliad y Concordat, cafodd y Datganiad Blynyddol ei gymeradwyo gan Senedd, Bwrdd Gweithredol a Chyngor y Brifysgol a bydd ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Brifysgol.

3. Mae'r Concordat yn ei gwneud hi’n ofynnol i’w lofnodwyr lunio datganiad blynyddol byr i'w corff llywodraethu, gan adrodd ynghylch y canlynol:

   (i) crynodeb o'r camau gweithredu a'r gweithgareddau a wnaed i gefnogi ac atgyfnerthu dealltwriaeth a chymhwyso materion sy’n ymwneud ag uniondeb ymchwil;

   (ii) datganiad i roi sicrwydd bod y prosesau sydd gan y sefydliad ar waith i ymdrin â honiadau o gamymddwyn yn dryloyw, yn amserol, yn gadarn ac yn deg, a'u bod yn parhau i fod yn briodol i anghenion y sefydliad;

   (iii) datganiad lefel uchel ynghylch unrhyw ymchwiliadau ffurfiol i gamymddwyn ymchwil a gynhaliwyd, gan gynnwys data am nifer yr ymchwiliadau. Os na chynhaliwyd ymchwiliad ffurfiol, dylid nodi hynny hefyd;

   (iv) datganiad ar yr hyn a ddysgodd y sefydliad o unrhyw ymchwiliadau ffurfiol i gamymddwyn ymchwil a gynhaliwyd, gan gynnwys y gwersi a ddysgwyd i atal yr un math o ddigwyddiad rhag digwydd eto; ac

   (v) datganiad ar sut mae'r sefydliad yn creu ac yn ymgorffori amgylchedd ymchwil lle mae'r holl staff, ymchwilwyr a myfyrwyr yn teimlo'n gyffyrddus i roi gwybod am achosion o gamymddwyn.

4. Mae'r datganiad yn cwmpasu'r cyfnod o 1 Awst 2021 hyd at 31 Gorffennaf 2022

## Y camau gweithredu a’r gweithgareddau a wnaed

1. Mae'r Brifysgol yn llwyr gydnabod y rheidrwydd i gynnal y safonau uchaf o ran uniondeb ymchwil ac, felly, mae'n ceisio cydymffurfio â'r Concordat, trwy fonitro a hyrwyddo’r ymarfer gorau’n barhaus. Yn hynny o beth dechreuodd y Brifysgol, a hynny o fewn cyfnod y datganiad, adolygiad o'i phroses llywodraethu ymchwil. Roedd hynny’n cynnwys:

2. Datblygu ac ymgorffori rôl yr Uwch Swyddog Polisi a Llywodraethu Ymchwil. Mae’r

Swyddog yn adrodd i Ysgrifennydd y Brifysgol ac mae'n gyfrifol am oruchwylio maes llywodraethu ymchwil yn ganolog a datblygu a rheoli'r polisïau, y systemau a'r gweithdrefnau, hyrwyddo'r ymarfer gorau a chefnogi'r Brifysgol i gyflawni'r rhwymedigaethau sydd arni o dan delerau'r Concordat.

3. Datblygu ac ymgorffori rôl y Dirprwy Is-Ganghellor Cynorthwyol, fel yr arweinydd academaidd, i ailstrwythuro uniondeb ymchwil a threfniadau llywodraethu'r Brifysgol, i wella cefnogaeth a hyfforddiant ledled y Colegau, yr Ysgolion a staff ymchwil-gynhyrchiol y Brifysgol.

4. Parhau i wreiddio uniondeb ymchwil a llywodraethu (gan gynnwys diwydrwydd dyladwy ac yn y blaen) yn ogystal â chontractau, gan gynnwys contractau a chytundebau masnacheiddio, o dan y Gwasanaethau Llywodraethu

5. Prynwyd a dechreuwyd datblygu system cymeradwyo moeseg electronig newydd er mwyn cynnig system integredig i brosesau adolygu moeseg ymchwil y Brifysgol gan gynnwys ei phortffolio dynol a'r portffolio anifeiliaid. Caiff y system ei gweithredu o dan arweiniad gweithgor sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r tri Choleg academaidd, gan gynnwys Pwyllgorau Moeseg Ymchwil Academaidd y Brifysgol. Caiff y gwaith ei arwain gan Wasanaethau Digidol y Brifysgol gyda chefnogaeth y Gwasanaethau Llywodraethu.

6. Mae systemau'n bodoli i gefnogi rheoli grantiau strwythurol/seilwaith mawr. Er enghraifft, ar gyfer rhai projectau ymchwil mawr (e.e., Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru), neu rai y mae iddynt heriau penodol, mae gan y Brifysgol fyrddau project a rhaglen rheolaidd i graffu ar yr adenillion i gyllidwyr a monitro cynnydd a pherfformiad.

7. Cymeradwywyd Polisi Uniondeb Ymchwil newydd gan Senedd y Brifysgol fis Medi. Mae'r Polisi'n cadarnhau pum egwyddor allweddol y Concordat i Gefnogi Uniondeb Ymchwil, ac mae hefyd yn nodi'r weithdrefn sy'n ymwneud ag ymchwilio i honiadau o gamymddwyn ymchwil.

8. Mae gweithdrefn yn y Polisi Uniondeb Ymchwil newydd sy'n ymwneud ag ymchwilio i gamymddwyn ymchwil. Gellir dwyn pryderon am gamymddwyn ymchwil neu honiad o gamymddwyn ymchwil i sylw'r Uwch Swyddog Llywodraethu a Pholisi Ymchwil. Yn y lle cyntaf, bydd y swyddog yn ystyried pryderon neu honiad yn ôl teilyngdod, ac os bydd angen, bydd yn dechrau ymchwiliad cyn pen 5 diwrnod gwaith.

9. Fel rhan o'r Polisi Uniondeb Ymchwil newydd, recriwtiodd yr Uwch Swyddog Polisi a Llywodraethu Ymchwil nifer o Arweinwyr Uniondeb Ymchwil ar lefel yr Ysgolion. Bydd yr unigolion hynny'n bwynt cyswllt lleol i'r staff a'r myfyrwyr er mwyn hyrwyddo a chodi proffil uniondeb ymchwil, cyfeirio pobl at hyfforddiant, a chefnogi hyfforddiant uniondeb ymchwil y Brifysgol a pholisïau o fewn sefydliadau ymchwil eu Colegau a'u Hysgolion. Bydd yr unigolyn yn rhoi cyngor i ymchwilwyr (staff a myfyrwyr) ynglŷn ag arferion ymchwil da, moeseg ymchwil a / neu uniondeb ymchwil, a chefnogi staff sy'n dymuno codi pryderon ynghylch uniondeb ymchwil. Rheolwr llinell yr Arweinwyr Uniondeb Ymchwil fydd Cyfarwyddwyr y Sefydliadau Ymchwil.

10. Mewn ymateb i argymhellion Pwyllgor Gwyddoniaeth a Thechnoleg Tŷ'r Cyffredin fis Gorffennaf 2018 a chydnabyddiaeth y Llywodraeth o wasanaethau Swyddfa Uniondeb Ymchwil y Deyrnas Unedig (UKRIO), tanysgrifiodd Prifysgol Bangor i UKRIO.

11. Cafodd rhai ychwanegiadau newydd allweddol eu hymgorffori ym Mholisi Moeseg Ymchwil y Brifysgol a rheini'n ymwneud yn benodol â'r isod:

i) Yr angen i Ddeoniaid y Colegau sicrhau y caiff unrhyw ymchwil y mae angen ei adolygu gan bwyllgorau moeseg ymchwil allanol ei asesu'n ddigonol i fod yn addas i'w noddi gan y Brifysgol.

ii) Yr angen i Bwyllgorau Moeseg Ymchwil Academaidd Prifysgol Bangor weithredu'n unol ag egwyddorion craidd y concordat sef annibyniaeth, cymhwysedd, hwyluso, tryloywder ac atebolrwydd

iii) Sicrhau y caiff aelodau lleyg neu aelodau o golegau a phrifysgolion eraill eu penodi i Bwyllgorau Moeseg Ymchwil Academaidd.

iv) Yr angen i'r holl ymchwil sy'n ymwneud â chyfranogwyr dynol gael ei adolygu naill ai gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil Academaidd priodol y Brifysgol neu, os caiff amodau penodol eu bodloni, gan bwyllgor moeseg ymchwil allanol priodol (e.e., ar gyfer projectau ymchwil sy'n gysylltiedig â'r Weinyddiaeth Amddiffyn neu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol)

v) Yr angen i ffrydio pob ymchwil sy'n ymwneud â chyfranogwyr dynol yn bum categori neilltuol.

vi) Yr angen i gynnal diwydrwydd dyladwy ar adnoddau genetig nad ydynt yn rhai dynol (planhigion, anifeiliaid a micro-organebau) o wledydd y tu hwnt i'r Deyrnas Unedig ynghyd â'r Wybodaeth Draddodiadol (aTK) sy'n gysylltiedig â nhw, yn unol â Phrotocol Nagoya a Rheoliadau Mynediad a Rhannu Buddion (ABS) y Deyrnas Unedig.

12. Mae Prifysgol Bangor wedi buddsoddi £50K i ddefnyddio'r pecynnau hyfforddi *Research Integrity Second Edition UK* and *Ethical Research UK* am gyfnod o 3 blynedd. Caiff y meddalwedd, sydd ar-lein, ei roi ar Blackboard ac mae Gwasanaethau Digidol Prifysgol Bangor yn bwriadu gweithio ar gyhoeddi cyfieithiad Cymraeg o rai o fodiwlau Epigeum.

## Y polisi, y weithdrefn a'r canllawiau cyfredol

1. Cefnogir uniondeb ymchwil ledled y Brifysgol. Mae'r Gwasanaethau Llywodraethu ac IRIS yn gweithio'n agos gyda'r Colegau a'r Ysgolion Academaidd i sicrhau bod y polisïau a'r canllawiau'n addas i'r diben. Mae'r cydweithio hwnnw'n allweddol i atgyfnerthu uniondeb ymchwil.

2. Mae'r Brifysgol yn cydnabod pwysigrwydd cynnal y safonau uchaf o ran uniondeb ymchwil ac felly mae'n cydymffurfio â'r Concordat i Gefnogi Uniondeb Ymchwil. Y Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil) ac Arloesi sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros uniondeb ymchwil a llywodraethu ymchwil. Mae cyfrifoldeb y Dirprwy Ysgrifennydd a Phennaeth y Gwasanaethau Llywodraethu yw cynllunio a gweithredu polisïau ac ymarfer da a dynododd yr Uwch Swyddog Polisi a Llywodraethu Ymchwil i oruchwylio'r maes hwnnw.

3. Mae Deoniaid y Colegau, Penaethiaid yr Ysgolion a Chyfarwyddwyr y Sefydliadau Ymchwil yn gyfrifol am drefniadau lleol uniondeb ymchwil, a byddant yn adolygu prosesau uniondeb y Sefydliadau Ymchwil a'r Ysgolion o bryd i'w gilydd er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben. Rhaid iddynt hefyd sicrhau, yn unol â'r Polisi Moeseg Ymchwil, bod o leiaf un Pwyllgor Moeseg Ymchwil Academaidd wedi ei sefydlu, sy'n bodloni anghenion y Coleg, y Sefydliad a'r Ysgolion cysylltiedig, gydag aelodaeth, cylch gorchwyl a phroses briodol o ran monitro ac adolygu materion sy'n ymwneud ag uniondeb ymchwil. Fel arall, bydd angen cytundeb i weithredu ac adolygu materion sy'n ymwneud ag uniondeb ymchwil trwy Bwyllgor Moeseg Ymchwil Academaidd priodol arall.

4. Yn ogystal, mae'r Dirprwy Is-Ganghellor Cynorthwyol ar gyfer Llywodraethu Ymchwil yn darparu cyfeiriad strategol academaidd ar gyfer llywodraethu ymchwil gyda Chadeiryddion y Pwyllgor Moeseg Ymchwil Academaidd. Mae disgwyl i Benaethiaid Ysgolion gymryd cyfrifoldeb dros sicrhau cyfeiriad ymchwil strategol priodol a bod yr ymchwilwyr yn cael eu goruchwylio'n effeithiol yn y Colegau a'r Ysgolion, gan gynnwys cyngor cychwynnol ar faterion uniondeb ymchwil ac ymddygiad academaidd, a bydd y Gwasanaethau

Llywodraethu'n ymdrin â phryderon ynghylch camymddwyn academaidd.

5. Pwyllgor Llywodraethu a Moeseg Ymchwil y Brifysgol, sy'n is-bwyllgor o Senedd y Brifysgol yw Pwyllgor cyffredinol Prifysgol Bangor dros ystyried materion sy'n ymwneud â llywodraethu ymchwil a moeseg. Mae'r Pwyllgor yn rhoi cyngor ynghylch strategaethau eang ar gyfer moeseg ac mae'n monitro perfformiad y Brifysgol yn gyffredinol yn hytrach nag ystyried materion unigol, megis cynigion ymchwil. Mae'r Pwyllgor wedi datganoli'r cyfrifoldeb dros y broses adolygu a chymeradwyo moesegol yn y tri choleg i Bwyllgorau Moeseg Ymchwil Academaidd perthnasol y Colegau.

6. Mae Cadeiryddion Pwyllgorau Moeseg Ymchwil Academaidd yn cyflwyno adroddiadau gerbron Pwyllgor Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Brifysgol ym mhob cyfarfod, a fydd yn cynnwys adroddiad blynyddol i gyfarfod cyntaf y flwyddyn academaidd. Gallant gyfeirio unrhyw faterion moesegol sy'n achosi pryder at yr Uwch Swyddog Polisi a Llywodraethu Ymchwil sy'n gwasanaethu fel Ysgrifennydd i'r Pwyllgor Moeseg a Llywodraethu Ymchwil a bydd yn sefydlu is-bwyllgor o'r Pwyllgor Moeseg a Llywodraethu Ymchwil, lle bo hynny'n briodol i ystyried y mater a gwneud argymhellion.

7. Mae Polisi Uniondeb Ymchwil y Brifysgol yn nodi canllawiau ynglŷn â'r materion sy'n gysylltiedig â chynnal ymchwil yn briodol, ac yn ôl y safonau a ddisgwylir. Mae'r Polisi'n datgan yn gwbl glir bod y Brifysgol yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r holl staff academaidd gynnal safonau uchel o ymddygiad academaidd ac, yng nghyd-destun ymchwil, i fod yn ymwybodol o ddifrifoldeb dirfawr twyll academaidd, a bod yn effro i'r angen i warchod rhag ymddygiad o'r fath, boed drwy ffugio canlyniadau ymchwil, llên-ladrad neu arall.

8. Mae'r Polisi'n mynnu bod gonestrwydd, bod yn agored, atebolrwydd ac uniondeb yn briodweddau hanfodol i unrhyw ymchwilydd academaidd ni waeth beth fo eu disgyblaeth neu lefel eu profiad.

9. Mae disgwyl y bydd yr holl fyfyrwyr a'r staff ymchwil-gynhyrchiol yn gwneud y canlynol:

   - cymryd camau i ymgyfarwyddo â'r Polisi mewn materion sy'n ymwneud ag ymddygiad, cyllid, neu ddiogelwch sy'n berthnasol i'w maes ymchwil;
   - cadw at y gofynion cyfreithiol a moesegol a bennir gan y Brifysgol neu unrhyw gyrff eraill a benodwyd yn briodol ac sy'n ymwneud â'u maes ymchwil;
   - cymryd camau i sicrhau diogelwch y rhai sy'n gysylltiedig â'r ymchwil;
   - rhoi gwybod am unrhyw wrthdaro buddiannau, boed yn wrthdaro gwirioneddol neu'n wrthdaro posib, i'r awdurdod priodol; sicrhau tegwch a cyfartaledd wrth gynnal eu hymchwil.

10. Mae'r brifysgol yn cydymffurfio â'r holl ofynion rheoliadol a statudol perthnasol gan gynnwys, er enghraifft, Rheoliadau Lles Anifeiliaid, Rheoliadau Meinweoedd Dynol a Rheoliadau Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith.

11. Mae'r Corff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol yn gyfrifol am adolygu a chymeradwyo'n foesegol yr holl ymchwil yn y Brifysgol sy'n ymwneud ag anifeiliaid, fel y nodir yn y Broses Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol. Mae'r Corff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol yn adrodd i Bwyllgor Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Brifysgol.

12. Caiff maes allweddol rheoledig y Meinweoedd Dynol ei reoli ar lefel Coleg, ac mae'r Gwasanaethau Llywodraethu yn darparu trosolwg gweithredol. Mae'n rhaid i unrhyw weithgareddau yn y Brifysgol sy'n ymwneud â defnyddio organau, meinweoedd a chelloedd (megis poer, gwaed ac yn y blaen sy'n cynnwys celloedd), ddilyn Amodau Safonol caeth ac

mae'n rhaid i ymchwilwyr sicrhau bod y defnydd a wneir o feinweoedd dynol wedi ei gymeradwyo'n foesegol trwy'r System Ceisiadau Ymchwil Integredig a'u bod wedi sicrhau'r cydsyniad priodol. Rhaid i ymchwilwyr sydd eisiau gwneud ymchwil sy'n cynnwys meinweoedd dynol ymgynghori ag Unigolyn Dynodedig Meinweoedd Dynol y Brifysgol cyn cychwyn gwneud ymchwil. Caiff ymchwil clinigol ei adolygu a'i gymeradwyo gan Awdurdod Ymchwil Iechyd a Phwyllgorau Moeseg Ymchwil y GIG ac mae pob treial clinigol wedi'i gofrestru'n gyhoeddus.

13. Caiff meysydd rheoledig allweddol eraill eu rheoli ar lefel y colegau perthnasol ac maent wedi cynnwys cymeradwyaeth, achrediad, neu gydnabyddiaeth gan amrywiol Gyrff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddiol fel y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, Estyn, Advance HE, Sefydliad Rheolaeth Siartredig a'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal.

14. Mae'r Brifysgol eisiau cydymffurfio'n llawn â gofynion Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol gan gynnwys ei berthnasedd i weithgaredd ymchwil. Y Gwasanaethau Llywodraethu sy'n rhoi cyngor ac arweiniad ynglŷn â materion sy'n ymwneud â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol ac mae cysylltiad clos rhyngddo â'r swyddogaeth llywodraethu ymchwil a moeseg. Mae'n amod cyflogaeth y bydd staff yn cydymffurfio â rheolau a pholisïau diogelu data'r Brifysgol. Yn benodol, rhaid i'r holl staff sicrhau:

    - y cedwir yr holl wybodaeth bersonol a ymddiriedir iddynt yn ystod eu cyflogaeth yn ddiogel.
    - na chaiff dim gwybodaeth bersonol ei datgelu nac ar lafar nac ar bapur, yn ddamweiniol na fel arall, i unrhyw drydydd parti heb awdurdod.
    - ni ddylai'r staff fynd at wybodaeth bersonol am unrhyw reswm ac eithrio busnes dilys y Brifysgol.
    - bod unrhyw wybodaeth a roddant i'r Brifysgol ynglŷn â'u cyflogaeth eu hunain yn gywir ac yn gyfredol a'u bod yn rhoi gwybod i'r Brifysgol am unrhyw newidiadau, e.e. newid cyfeiriad.
    -

15. O ran hyfforddiant, mae'r Brifysgol hefyd yn un o lofnodwyr y Concordat Datblygu Ymchwilwyr ac, ers 2015, mae'n cynnal gweithgor, o dan arweiniad Deon o'r Brifysgol, i weithredu, ymgorffori a hyrwyddo egwyddorion y Concordat hwn ac i hyrwyddo'r ymarfer gorau; er enghraifft, wrth hyfforddi Ymchwilwyr ar Ddechrau eu Gyrfa. Mae'r grŵp yn dwyn staff cefnogi allweddol ynghyd yn ogystal â chynrychiolwyr academaidd o bob rhan o'r Brifysgol. Mae'n adrodd yn uniongyrchol i Grŵp Strategaeth Ymchwil, Arloesi ac Effaith y Brifysgol (RIISG).

16. Bydd yr Uwch Swyddog Polisi a Llywodraethu Ymchwil a'r Dirprwy Is-Ganghellor Cynorthwyol yn sicrhau y bydd hyfforddiant ar bynciau sy'n ymwneud ag uniondeb ymchwil ar gael trwy Raglenni Datblygu Cynefino Staff Adnoddau Dynol y Brifysgol. Fel rhan o drafodaeth ymchwil ehangach, rydym eisiau trefnu rhaglenni ychwanegol ar gyfer hyfforddiant ledled y brifysgol mewn uniondeb ymchwil megis cyrsiau mewn cyfathrebu, cyfrifoldeb cymdeithasol, gwrthdaro buddiannau, cynllunio ymchwil, rheolaethau allforio ac eiddo deallusol

**Datganiad ar ymchwiliadau ffurfiol i Gamymddwyn Ymchwil Academaidd**

1. Yn ystod blwyddyn academaidd 2021/22 hyd yma, ni chafodd unrhyw honiadau eu dwyn gerbron ymchwiliad ffurfiol. Ni chofnodwyd unrhyw honiadau am y ddwy flynedd flaenorol:

    - ni chafodd neb eu diswyddo yn y cam rhagarweiniol; ac
    - nid oes unrhyw achosion yn dal i gael eu hystyried

2. Yn ystod blwyddyn academaidd 2021/22, cyfeiriwyd ymchwiliad anffurfiol o'r flwyddyn flaenorol i gonfensiynau enwi sarffegol at UKRIO am gyngor.

3. Mae tabl i'w gael yn Atodiad 1 ar gyfer y 3 blynedd academaidd diwethaf a gwblhawyd a blwyddyn 1 yw'r flwyddyn a gwblhawyd yn fwyaf diweddar.

**Gwersi o ymchwiliadau ffurfiol a gynhaliwyd i gamymddwyn ymchwil**

1. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ni fu unrhyw ymchwiliadau ffurfiol i gamymddwyn. Mae'r Brifysgol yn seilio'r prosesau sydd ganddi i gynnal ymchwiliadau ar ganllawiau UKRIO ac mae'n defnyddio cysylltiadau â'r gymuned rheoli ymchwil ehangach i lywio unrhyw newid i'n polisïau. Mae'r Brifysgol yn parhau i fod yn wyliadwrus ac mae'n cymryd unrhyw honiad o ddifrif ac fel cefnogwyr y concordat sy'n bleidiol i uniondeb ymchwil, rydym yn ymrwymo i'r canlynol:

   - cynnal y safonau uchaf o ran trylwyredd ac uniondeb ym mhob agwedd ar ymchwil
   - sicrhau y cynhelir ymchwil yn unol â fframweithiau, rhwymedigaethau a safonau moesegol, cyfreithiol a phroffesiynol priodol
   - cefnogi amgylchedd ymchwil sy'n seiliedig ar ddiwylliant o uniondeb ac ar lywodraethu da, yr ymarfer gorau a chefnogaeth i ddatblygu ymchwilwyr
   - defnyddio prosesau tryloyw, cadarn a theg i ymdrin â honiadau o gamymddwyn ymchwil pe baent yn codi
   - cydweithio i gryfhau uniondeb ymchwil ac i adolygu cynnydd yn rheolaidd ac yn agored

2. Cafodd y weithdrefn ei diweddaru gan yr Uwch Swyddog Polisi a Llywodraethu Ymchwil. Bydd adolygu a lle bo angen, gwella ar y prosesau camymddwyn ymchwil yn parhau i fod yn rhan o adolygiad y Brifysgol o drefniadau llywodraethu ymchwil ac uniondeb ymchwil.

**Ymgorffori amgylchedd ymchwil sy'n annog bod yn agored a pharodrwydd i roi gwybod am achosion o gamymddwyn.**

1. Mae Cod Ymarfer ymchwil y Brifysgol yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r angen i gynnal safonau uchel o ymddygiad academaidd o ran nodweddion cadarnhaol gonestrwydd, bod yn agored, atebolrwydd ac uniondeb, fel priodweddau hanfodol i unrhyw ymchwilydd academaidd ni waeth beth yw eu disgyblaeth na lefel eu profiad. Trwy nifer o fecanweithiau, gan gynnwys Adolygiadau Datblygiad Proffesiynol y staff, gweithredu'r Concordat Datblygu Ymchwilwyr, y rhaglen fentoriaeth a ddiwygiwyd yn ddiweddar a hyfforddiant i oruchwylwyr PhD a staff, rydym eisiau sicrhau bod unigolion yn cael eu grymuso i godi pryderon lle y gall fod achosion o ymarfer academaidd gwael neu gamymddygiad. Bydd staff yn cael gwybod am broses lle gall unigolion fynd at yr Uwch Swyddog Polisi a Llywodraethu Ymchwil yn gyfrinachol ac y cymerir camau priodol. Mae gan y Brifysgol hefyd Bolisi a Gweithdrefnau Datgelu Er Lles y Cyhoedd (Chwythu'r Chwiban).

**Paratoi'r datganiad hwn**

1. Paratowyd a chydlynwyd y datganiad hwn gan y Dirprwy Is-Ganghellor Cynorthwyol Llywodraethu Ymchwil, Dirprwy Ysgrifennydd a Phennaeth y Gwasanaethau Llywodraethu, Pennaeth Dros Dro Cefnogaeth Ymchwil ac Effaith a'r Uwch Swyddog Polisi a Llywodraethu Ymchwil.

2. Cyflwynwyd a chymeradwywyd y datganiad yng nghyfarfod Senedd y Brifysgol ar 5 Rhagfyr 2022.

**Robert Rogers (Dirprwy Is-Ganghellor Cynorthwyol  Llywodraethu Ymchwil)**
**Gwenan Hine (Ysgrifennydd y Brifysgol)**

**Saskia Pagella (Pennaeth Cefnogi Ymchwil ac Effaith)**
**Colin Ridyard (Uwch Swyddog Polisi a Llywodraethu Ymchwil)**

**Tachwedd 2022**

**Atodiad 1**

• Darperir ffigurau ar gyfer y 3 blynedd academaidd ddiwethaf a gwblhawyd gyda blwyddyn 1 yn cynrychioli'r flwyddyn a gwblhawyd yn fwyaf diweddar.
• Mae “ymchwiliad ffurfiol” fel a ddisgrifir ym Mholisi a Chanllawiau UKRI
• Dylai ymchwiliadau gael eu rhannu gan y Cyngor Ymchwil, ac yn ôl math (fel y'u diffinnir yn adran uniondeb gwe-dudalen UKRI)

| | Ffugio | | Anwirio | | Llên-ladrad | | Camliwio | | Tor-dyletswydd gofal | | Ymdrin yn amhriodol â honiadau o gamymddwyn | | arall | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blwyddyn | cwblhawyd | wedi'i gadarnhau | cwblhawyd | wedi'i gadarnhau | cwblhawyd | wedi'i gadarnhau | cwblhawyd | wedi'i gadarnhau | cwblhawyd | wedi'i gadarnhau | cwblhawyd | wedi'i gadarnhau | cwblhawyd | wedi'i gadarnhau |
| 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |